**Prifysgol De Cymru**
**Polisi Gwaith Llawrydd Moesegol**

**Diben ac Egwyddorion**
Mae'r polisi hwn yn gosod safbwynt Prifysgol De Cymru o ran gwaith prosiect llawrydd a hunangyflogedig a gyflawnir gan fyfyrwyr a graddedigion, a'r safonau rydym yn eu disgwyl gan unrhyw fudiad, cleient neu lwyfan a hyrwyddir trwy Gyrfaoedd PDC, Stiwdio Sefydlu neu sydd wedi'i blannu o fewn cwricwla academaidd.

Caiff gwaith llawrydd, gwaith ymgynghori a hunan-gyflogaeth eu cydnabod fel llwybrau gyrfa proffesiynol cyffredin cyfiawn a chynyddol ar gyfer ein graddedigion. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau hyn ac i gael mynediad at gyfleoedd yn ddiogel.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod marchnadoedd llawrydd yn agored i waith di-dâl, tanbrisio ac ymarfer camfanteisio a gall myfyrwyr a graddedigion newydd yn enwedig fod mewn perygl o brofi hyn o ganlyniad i gyfyngiadau o ran profiad, hyder neu bŵer bargeinio. Mae hyn yn enwedig o wir yn y diwydiannau creadigol a'r diwydiannau diwylliannol lle y mae cyfradd sylweddol o'n graddedigion llawrydd yn adeiladu eu gyrfaoedd.

Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â Pholisi Gyrfaoedd Moesegol Gyrfaoedd PDC ac mae wedi'i seilio gan yr un gwerthoedd sefydliadol o degwch, cynaliadwyedd a chynwysoldeb â Chynllun Strategol 2030 PDC ac egwyddorion craidd Cod Moeseg AGCAS. Mae hefyd wedi'i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn benodol â chanllaw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, *Canllaw i gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda gweithwyr diwylliannol llawrydd* a [*Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant*]() Llywodraeth Cymru sy'n nodi y dylai fod gan weithwyr llawrydd *'amodau gwaith da'*.

Wedi'i ysgrifennu ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n comisiynu gweithwyr creadigol a diwylliannol llawrydd, mae egwyddorion y canllaw o dryloywder, gwaith teg, partneriaeth go iawn ac ymgysylltu cynaliadwy yn berthnasol ac yn gydradd i sut mae PDC yn cefnogi ei myfyrwyr a'i graddedigion ei hun i gamu i waith llawrydd a gwaith hunangyflogedig a sut mae'r Brifysgol ei hun yn ymgysylltu â graddedigion creadigol llawrydd (er enghraifft, trwy gomisiynu gwaith â thâl trwy Gyrfaoedd PDC a Stiwdio Sefydlu).

1. **Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- Gyfleoedd gwaith llawrydd, gwaith ymgynghori, neu waith hunangyflogedig wedi'u hysbysebu, eu hyrwyddo, neu eu hwyluso trwy lwyfannau, digwyddiadau neu aelodau staff Gyrfaoedd PDC a Stiwdio Sefydlu.

- Prosiectau sy’n seiliedig ar gleientiaid, prosiectau brîff byw neu brosiectau ar ffurf ymgynghoriadau o fewn modiwlau, asesiadau Cwricwlwm Seiliedig ar Heriau (CBC), neu weithgarwch mentergarwch cyd-gwricwlaidd.

- Arweiniad a chymorth a ddarperir i fyfyrwyr a graddedigion sy’n rhoi ystyriaeth i waith llawrydd neu hunangyflogaeth, gan gynnwys ymarfer gwaith creadigol a diwylliannol llawrydd.

- Unrhyw ymgysylltu â gweithwyr llawrydd sy’n fyfyrwyr neu’n raddedigion, gan gynnwys gweithwyr diwylliannol a chreadigol llawrydd, gan y Brifysgol ei hun (er enghraifft, gwaith celf, gwaith dylunio neu waith hyrwyddo a gomisiynwyd).

Nid yw’n ceisio rheoleiddio trefniadau preifat y mae myfyrwyr yn eu trefnu’n annibynnol o’r Brifysgol, er argymhellir yr arweiniad a’r egwyddorion isod ym mhob achos.

**2. Ein Safbwynt o ran Gwaith Llawrydd Di-dâl a Gwaith Llawrydd sy’n Camfanteisio**
Nid yw’r Brifysgol yn cefnogi, yn cymeradwyo, nac yn hyrwyddo gwaith llawrydd di-dâl neu gwaith llawrydd sy’n camfanteisio. Ni fyddwn yn bwrpasol yn hwyluso nac yn cymeradwyo cyfleoedd sy’n:

- Gofyn am "waith damcaniaethol" sylweddol, broliannau neu samplau a gynhyrchir am ddim fel amod o gael eich ystyried am waith â thâl.

- Cynnig dim taliad, neu daliad y mae aelodau staff Gyrfaoedd PDC neu Stiwdio Sefydlu yn credu’n rhesymol ei fod yn sylweddol yn is na’r arferion ar gyfer y sector, gan roi ystyriaeth i’r sgil, yr amser, y profiad a’r gwerth y gofynnir amdanynt.

- Dibynnu ar "gyhoeddusrwydd", "adeiladu portffolio" neu "brofiad" fel yr unig ffordd o iawndal ar gyfer cyflenwadau o safon broffesiynol.

- Cael disgwyliadau cwmpas, llinellau amser neu adolygu y mae aelodau staff Gyrfaoedd PDC neu Stiwdio Sefydlu yn ystyried yn rhesymol eu bod yn aneglur, yn ddi-ben draw neu’n afresymol am y math a’r raddfa o waith, gan osod risg neu faich annerbyniol ar y gweithiwr llawrydd.

- Methu darparu brîff, cytundeb neu sail glir am daliadau wythnosau cyn dechrau ar y gwaith.

- Dangos tystiolaeth o ymddygiad cleient sy’n gymhellol, yn wahaniaethol neu’n amharchus tuag at weithwyr llawrydd.

Lle y caiff ymarferion o’r math eu hadnabod, os ydynt yn cael eu codi gan fyfyriwr, myfyriwr graddedig, aelod staff, neu drwy ein diwydrwydd dyladwy ein hun, ni chaniateir i’r mudiad neu’r cyfle cysylltiedig hysbysebu, mynychu digwyddiadau, neu ymgysylltu fel arall â Gyrfaoedd PDC a Stiwdio Sefydlu, yn unol â’r meini prawf gwahardd a nodir yn y Polisi Gyrfaoedd Moesegol.

**3. Gwaith Prosiect sy'n Gysylltiedig â'r Cwricwlwm a Gwaith Prosiect Proffesiynol Derbyniol**

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i weithgarwch academaidd sydd wedi'i blannu yn y cwricwlwm neu weithgarwch datblygiad proffesiynol go iawn nid yw'n camfanteisio o ran ei natur. Mae'r Brifysgol yn cefnogi prosiectau sy'n seiliedig ar gleientiaid a phrosiectau sy'n wynebu diwydiant lle y maent:

- Wedi'u plannu o fewn modiwl, rhaglen neu gynllun allgyrsiol cydnabyddedig, sydd â diben academaidd neu ddatblygiadol clir.

- Yn ffurfio rhan o waith cwrs asesedig neu waith cwrs credydau, neu gynllun lleoliad gwaith, interniaeth neu fentergarwch cydnabyddedig.

- Wedi'u cwmpasu'n briodol, wedi'u cyfyngu o ran amser ac wedi'u goruchwylio gan aelodau staff academaidd neu aelodau staff gyrfaoedd.

- Yn rhoi profiad dysgu go iawn i fyfyrwyr; profiad o frîff, cleientiaid neu randdeiliaid go iawn, adborth, a'r cyfle i adeiladu portffolio proffesiynol.

- Yn gofyn i fyfyrwyr lunio cyflenwadau o safon fasnachol er budd masnachol parhaus cleient heb gydnabyddiaeth, clod, neu, lle y bo'n briodol, daliad y mae'r aelodau staff academaidd neu yrfaoedd sy'n goruchwylio yn ystyried yn briodol, gan roi ystyriaeth i raddfa, hyd, a gwerth masnachol y gwaith i'r cleient

- Mae enghreifftiau o weithgarwch derbyniol yn cynnwys asesiadau CBC sy'n seiliedig ar gleientiaid, brîff byw wedi'i gyflenwi mewn partneriaeth â chyflogwyr, prosiectau ymgynghori strwythuredig wedi'u cynnal trwy gynlluniau mentergarwch y Brifysgol a phrosiectau dechrau busnes neu fenter newydd a gefnogir gan fentoriaid.

Lle y bydd prosiect yn symud y tu hwnt i ymarfer addysgol i waith o werth masnachol uniongyrchol, parhaol i sefydliad allanol, dylai aelodau staff sicrhau bod y trefniant yn deg, yn dryloyw a, lle y bo'n briodol, yn waith â thâl, sydd â chontract neu benawdau'r telerau clir a chytûn.

**4. Gwaith Teg a Safonau Tâl**

Lle y caiff cyfleoedd am waith llawrydd neu gyfleoedd am brosiectau eu hyrwyddo neu eu hwyluso gan Gyrfaoedd PDC a Stiwdio Sefydlu y tu allan i gyflenwi'r cwricwlwm, byddwn ni'n defnyddio'r un egwyddorion chwarae teg â'n Polisi Gyrfaoedd Moesegol ehangach, wedi'i hysbysu gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ac arweiniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ymgysylltu â gweithwyr diwylliannol llawrydd:

- Dylai'r taliad adlewyrchu natur broffesiynol gwaith llawrydd ac ni ddylai gael ei feincnodi yn erbyn cyflogau cyflogaeth fesul awr megis y Cyflog Byw

Gwirioneddol, nad ydynt yn cyfrif amser gweinyddol, trethi, diffyg buddion cyflogaeth, neu gyfnodau heb waith. Fel arfer, dylai cyfraddau alinio â meincnodau cydnabyddedig y sector lle y bo ar gael (gweler isod), neu fel arall adlewyrchu cyfradd dydd/prosiect deg, dryloyw sy'n briodol i'r sector a'r lefel sgiliau.

- Ar gyfer gwaith creadigol a diwylliannol llawrydd, defnyddio canllawiau tâl presennol y sector fel meincnod, gan gynnwys cyfraddau a negodwyd gan yr undebau a chyfraddau safonol y diwydiant (er enghraifft y rhai a gyhoeddir gan Equity, Undeb y Cerddorion, BECTU, Urdd Awduron Prydain Fawr, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, Unite, neu drwy CULT Cymru).

- Brîff, cwmpas a chytundeb clir (ysgrifenedig os oes modd) wedi'i osod cyn i'r gwaith ddechrau, a lle y caiff tâl ei wahaniaethu yn deg yn ôl profiad a lefel sgiliau.

- Llinellau amser rhesymol, a nodwyd yn glir a disgwyliadau adolygu, gan gynnwys amser paratoi, deunyddiau, teithio a threuliau lle y bo'n briodol.

- Amodau gwaith diogel, cyfreithiol a pharchus, sy'n rhydd o wahaniaethau neu aflonyddu.

- Tryloywder o ran eiddo deallusol, perchnogaeth gwaith, ac unrhyw ddefnydd masnachol o'r allbwn.

- Prosesau talu prydlon ac anfonebu syml, gan gydnabod bod talu'n hwyr neu'n aneglur yn ffynhonnell sylweddol o galedi i weithiwr llawrydd.

Mae PDC yn ymwybodol o ymdrechion cenedlaethol ehangach i wella ymarfer talu, gan gynnwys Cod Talu Teg Llywodraeth y DU (sydd wedi disodli'r Cod Talu'n Brydlon ac sydd ar agor i brifysgolion fel llofnodwyr) a'r egwyddorion sy'n cael eu hadlewyrchu yn siartrau talu'r sector megis Siarter Taliadau Teg a ddefnyddir ym maes adeiladu. Er nad oedd y fframweithiau hyn wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer comisiynu gwaith llawrydd neu waith creadigol, rydym yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail iddynt sef taliadau clir, teg a phrydlon, a byddwn yn ystyried gweithio tuag at gydnabyddiaeth ffurfiol — megis Gwobr Cod Talu Teg — wrth i'n prosesau talu ein hunain ddatblygu.

**5. Arweiniad a Chymorth ar gyfer Myfyrwyr a Graddedigion**
Bydd Gyrfaoedd PDC a Stiwdio Sefydlu yn cefnogi myfyrwyr a graddedigion i weithio'n llawrydd ac i weithio'n annibynnol gyda hyder trwy roi arweiniad ar:

- Gydnabod ac osgoi gwaith di-dâl neu waith sy'n camfanteisio.

- Prisio, dyfynbrisio a chostio gwaith llawrydd neu waith ymgynghori yn briodol, gan gynnwys cyfeirio i feincnodau tâl y sector a rhai'r undebau ar gyfer gweithwyr llawrydd creadigol a diwylliannol.

- Contractau, telerau ymgysylltu a diogelu eiddo deallusol.
- Ble i godi pryderon am gleient, brîff neu gyfle y daethpwyd ar eu traws trwy sianeli'r Brifysgol.
- Ar gyfer gweithwyr creadigol a diwylliannol llawrydd yn benodol, cyfeirio i gyrff ac undebau perthnasol y sector (megis Equity, Undeb y Cerddorion, BECTU, Urdd Awduron Prydain Fawr, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, a CULT Cymru), a chanllaw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer ymgysylltu â chyrff cyhoeddus.

Anogir myfyrwyr a graddedigion sy'n dod ar draws cyfleoedd gwaith llawrydd di-dâl neu waith llawrydd sy'n camfanteisio i adrodd am y rhain i Gyrfaoedd PDC er mwyn iddynt gael eu hadolygu yn erbyn y polisi hwn.

**6. Alinio â Chanllaw Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cyrff Cyhoeddus sy'n Gweithio gyda Gweithwyr Diwylliannol Llawrydd**

Mae Gyrfaoedd PDC yn cydnabod bod llawer o'i graddedigion sy'n weithwyr llawrydd a hunangyflogedig, yn enwedig y rhai o'r Diwydiannau Creadigol, yn bodloni'r diffiniad o "Weithwyr Diwylliannol Llawrydd " a nodir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: unigolion a micro-fusnesau sy'n gweithio yn sectorau'r celfyddydau, y diwydiannau diwylliannol a'r diwydiannau creadigol ar sail prosiect neu ar sail contract. Lle y mae Gyrfaoedd PDC neu'r Brifysgol ehangach yn ymgysylltu, yn comisiynu neu'n hyrwyddo gwaith gweithwyr diwylliannol llawrydd, bydd yn rhoi ystyriaeth i bedair egwyddor graidd y canllaw:

- Tryloywder a Dealltwriaeth — ymgysylltu'n agored, gyda chyfathrebu clir, cyfleoedd hygyrch a disgwyliadau wedi'u diffinio.
- Gwaith Teg — sicrhau chwarae teg sy'n adlewyrchu safonau diwydiant neu gytundebau'r undebau, a thelerau recriwtio a chontractio tryloyw, cynhwysol a hygyrch a thelerau talu prydlon.
- Partneriaeth Go Iawn — cydnabod gweithwyr diwylliannol llawrydd fel cyfranwyr sydd ag arbenigedd a mewnwelediad creadigol nid cyflenwyr cynnwys di-dâl.
- Ymgysylltu Cynaliadwy — meithrin perthnasoedd ar gyfer yr tymor hirach a chynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol a phartneriaethau, yn hytrach na defnydd untro, gweithrediadol o lafur gweithiwr llawrydd.

Mae'r aliniad hwn yn atgyfnerthu, yn hytrach na disodli, y safonau a nodwyd yn Adrannau 2 a 4 o'r polisi hwn ac mae'n berthnasol i sut mae'r Brifysgol yn cefnogi ei myfyrwyr a'i graddedigion i gamu i'r farchnad gwaith llawrydd a sut y mae'r Brifysgol ei hun yn ymddwyn wrth ddefnyddio graddedigion creadigol llawrydd yn uniongyrchol.

7. Tryloywder ac Adolygu

Mae’r polisi hwn ar gael yn gyhoeddus trwy dudalennau gwe Gyrfaoedd PDC a chaiff ei adolygu’n flynyddol mewn ymgynghoriad â myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr, ac aelodau staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol.

I roi adborth ar y polisi hwn, cysylltwch â Phennaeth Gwasanaethau Datblygu Gyrfaoedd.

Perchennog: Gyrfaoedd PDC
Ysgrifennwyd gan: Jonathan Jones, Rheolwr Entrepreneuriaeth
Cymeradwywyd gan: Emma Forouzan, Pennaeth Gwasanaethau Datblygu Gyrfaoedd
Dyddiad cymeradwyo: 21/08/2026
Dyddiad adolygu: 08/2027